| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**1. Cyflwyniad ........ 1**
Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu' ........ 1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu darparwyr Cymraeg i Oedolion ........ 1
**2. Trefniadau arolygu ........ 2**
Cyflwyniad ........ 2
Arolygiadau â thema ........ 2
Gwrthusiadau o waith darparwyr ........ 2
Arolygiadau llawn ........ 2
Arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ........ 3
Egwyddorion ein gwaith ........ 3
Meddylfryd arolygu ........ 3
Disgwyliadau o ran arolygwyr ........ 4
Disgwyliadau o ran darparwyr ........ 4
Y Gymraeg ........ 5
Yr Ystafell Arolygu Rithwir ........ 5
Y tîm arolygu ........ 6
Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles ........ 6
**3. Ymagwedd at arolygiad llawn ........ 7**
Cysylltu â'r darparwr cyn arolygiad llawn ........ 7
Cynllunio'r arolygiad llawn a pharatoi'r tîm ........ 8
Yn ystod yr arolygiad llawn ........ 9
Ar ôl yr arolygiad llawn ........ 11
Sicrhau ansawdd arolygiadau ........ 12
**4. Ymagwedd at arolygiad â thema ........ 14**

## 2. Trefniadau arolygu

### Cyflwyniad

Mae'r sector Cymraeg i Oedolion yn cynnwys darparwyr Dysgu Cymraeg sy'n cael eu hariannu a'u hansawdd ei sicrhau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ystod cylch arolygu 2016-2024, arolygom bob un o'r darparwyr Dysgu Cymraeg unwaith, gan ddefnyddio fframwaith arolygu craidd a chymhwyso graddau crynodol. Yn ychwanegol, arolygwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddwywaith, heb ddefnyddio graddau crynodol: hanner ffordd trwy'r cylch ac wedyn ar ddiwedd y cylch.

Yn ystod cylch arolygu 2024-2030, byddwn yn mabwysiadu model arolygu mwy hyblyg a fydd yn ein galluogi i fod yn ystwyth wrth ymateb i sector sy'n esblygu'n gyflym. Mae ystod y modelau arolygu y byddwn yn eu defnyddio yn cynnwys:

- Arolygiadau â thema
- Gwerthusiadau cyfnodol o waith darparwyr unigol
- Arolygiadau llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg
- Arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

### Arolygiadau â thema

Bydd hyn yn cynnwys prif ffocws ein gweithgarwch arolygu gyda'r sector. Bob blwyddyn, byddwn yn creu **adroddiadau cenedlaethol** ar ystod o themâu sy'n berthnasol i'r sector gyda'r nod o amlygu arfer effeithiol a helpu'r sector i wella. Byddwn yn ymweld â sampl o ddarparwyr neu'n cynnal arolwg ohonynt fel rhan o'r gwaith hwn, a byddwn fel arfer yn ymweld â phob darparwr o leiaf ddwywaith yn ystod cyfnod o 3 blynedd. Byddwn yn defnyddio AEF ac arolygwyr cymheiriaid yn ystod y gweithgareddau hyn. Byddwn yn cadarnhau ein thema / themâu ar gyfer pob blwyddyn academaidd yn ystod y tymor haf blaenorol. Byddwn yn ysgrifennu at ddarparwyr bob blwyddyn yn amlinellu'r ffocws ar gyfer y flwyddyn, a'r ymagwedd y byddwn yn ei defnyddio.

### Gwerthusiadau o waith darparwyr

Yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau cenedlaethol, byddwn yn ysgrifennu llythyr at ddarparwyr ar ddiwedd pob cyfnod o 3 blynedd yn amlinellu ein gwerthusiadau o agweddau penodol ar eu gwaith. Byddwn yn cyhoeddi'r **llythyrau hyn at ddarparwyr unigol**. Bydd y rhain wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'n harolygiadau â thema a byddant yn sicrhau bod darparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn derbyn gwerthusiad o effeithiolrwydd y ddarpariaeth, yn lle arolygiad llawn. Gallent hefyd gynnwys gwerthusiad bras o gynnydd ar argymhellion a wnaed yn ystod adroddiad arolygu diwethaf y darparwr.

### Arolygiadau llawn

Byddwn hefyd yn arolygu sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg gan ddefnyddio ein fframwaith **arolygu llawn**. Mae'r ddogfen 'Beth rydym yn ei arolygu' yn darparu'r fframwaith hwn sy'n defnyddio tri maes arolygu.

